**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J E Burtonshaw (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau Cynrychioliadol:**
Alyx Baharie, CGGA
Adrian Bailey, CGGA
Shelley Elgin, Help for Heroes Cymru
Capten Chris Evans MBE, Catrawd 157(Cymru) y Corfflu Logisteg Brenhinol
Alison Fisher, Heddlu De Cymru
Lt Cdr Ruth Fleming, Lluoedd wrth gefn y Llynges
Thomas Hall, Blesma
Roth Hitchens, Help for Heroes Cymru
Paul Jones, Y Gwasanaeth Prawf
Anna Looker, Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Jackie Preston, Cyngor ar Bopeth
Adrian Rabey, Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
David Singletary, SSAFA

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Nigel Jones | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Sue Richards-Hoskins, Antony Rabey ac Eve Warburton

---

**20 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim.

**21 Y Cyn-gynghorydd ACS (Tony) Colburn**

Cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch at farwolaeth y cyn-gynghorydd Tony Colburn, a oedd hefyd yn aelod o'r Panel, ac a gynrychiolai'r Lleng Brydeinig Frenhinol (Cangen y Mwmbwls a De Gŵyr).

Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

## 22 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2017 yn gofnod cywir.

## 23 Y diweddaraf gan aelodau'r panel. (Llafar)

Rhoddodd aelodau'r panel y diweddaraf ar lafar am weithgareddau, digwyddiadau a llwythi gwaith presennol ac arfaethedig eu grwpiau a'u sefydliadau, gan gynnwys y meysydd canlynol:

<u>Y Llynges</u>
Adroddodd Ruth Fleming y bydd cyfarfodydd y Rhwydwaith Teuluoedd Llyngesol yn dechrau ym mis Mawrth. Dywedodd fod Adran Tawe wedi mynd i ddeg digwyddiad coffa.

<u>Y Fyddin</u>
Adroddodd Chris Evans ei fod wedi bod i gyfarfod Cyfamod Cymru Gyfan yn Wrecsam yn ddiweddar. Nododd y bu'r digwyddiad STOMP yn y Grange yr wythnos diwethaf yn llwyddiant ac y byddai Diwrnod y Lluoedd Arfog yn 2017 ar yr un diwrnod â'r Sioe Awyr, felly cynhelir digwyddiadau o gwmpas y Senotaff oherwydd y logisteg ar gyfer y penwythnos. Dywedodd fod yr Adran wedi cymryd rhan mewn tair gorymdaith dros gyfnod y cofio. Adroddodd fod Cyngor Abertawe wedi ennill gwobr arian yn ddiweddar mewn seremoni yng Nghaerdydd a'i fod ef ei hun wedi dod yn ail yn y categori personol.

<u>Digwyddiadau Arbennig</u>
Crybwyllodd Nigel Jones fod yr ail bolyn baner bellach yn ei le yn Sgwâr y Castell ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yno. Cyfeiriodd eto at drefniadau ar gyfer y sioe awyr a diwrnod y Lluoedd Arfog lle cynhelir digwyddiadau o gwmpas ardal y senotaff. Cyfeiriodd hefyd at y prosiect Nawr yr Arwr a fydd yn dechrau ym mis Medi.

<u>Y Lleng</u>
Dywedodd Anna Looker fod yr arweiniad 'Service Children in Education' bellach ar gael ar eu gwefan, ac y byddai'n ddefnyddiol pe bai aelodau'n gallu ei rannu a'i hyrwyddo. Dywedodd ei bod hi'n ymddangos y bydd yr ymgyrch 'Count Them In' (Cyfrifwch Nhw) yn llwyddiannus os profir bod yr adborth anffurfiol yn gywir, a bydd yn golygu y byddai'r cwestiwn sy'n ymwneud â "Gwasanaeth yn y Lluoedd Arfog" yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad 2021. Cyfeiriodd hefyd at ddigwyddiad "Y Bererindod Fawr" i Gât Menin yn Ypres a gaiff ei gynnal i goffáu digwyddiad tebyg a gynhaliwyd 90 mlynedd yn ôl. Y gobaith yw y bydd 2,000 o bobl yn mynd iddo, gyda chynrychiolwyr o bob cangen yn y wlad. Cynhelir gweithgareddau codi arian i helpu i gynorthwyo gyda chost y daith i gynrychiolwyr.

<u>Help for Heroes</u>
Adroddodd Shelly Elgin eu bod newydd benodi Amanda Thomas yn brif weithiwr ar gyfer ardal y de-orllewin. Dywedodd hefyd eu bod hefyd wedi sicrhau dros £500 mil

o gyllid ar gyfer 7 aelod o staff cefnogi newydd a fydd yn gweithio mewn cydweithrediad â Change Step.

Heddlu De Cymru

Adroddodd Alison Fisher fod swyddogion wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi camddefnyddio sylweddau, ac y dylai swyddogion mewn dalfeydd geisio nodi "cyn-filwyr" ar bob cyfle.

Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig

Adroddodd Adrian Rabey bod 22 o gwmnïau eraill wedi ymuno â'r cynllun sicrwydd o gyfweliad. Nododd fod y ganolfan galw heibio yn Heol Eaton, Brynhyfryd yn parhau i fod yn llwyddiannus, gyda Greggs bellach yn rhoi peth bwyd ar gyfer digwyddiadau, ac mae croeso i holl aelodau'r panel fynd iddynt.

Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)

Adroddodd Dave Singleton fod y gwaith achos y parhau i gynyddu a bod yn fwy technegol, yn enwedig oherwydd y newidiadau diweddar i fudd-daliadau. Dywedodd fod aelod newydd o staff wedi'i benodi'n ddiweddar a chanddo arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud â budd-daliadau/pensiynau, felly dylai hyn fod o gymorth mawr i'r sefydliad. Amlinellodd y byddai dawns yr SSAFA yn cael ei chynnal unwaith eto yn Ngwesty'r Aberavon Beach ym mis Chwefror ac bod croeso i holl aelodau'r panel ddod iddi.

Blesma

Dywedodd Tom Hall ei fod yn falch o fod yn mynd i'w gyfarfod cyntaf, ac amlinellodd brif ffocws ei sefydliad wrth helpu cyn-filwyr heb goesau/breichiau ac aelodau eu teulu.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Dosbarthwyd manylion bwrsariaeth sydd ar gael ar gyfer cyrsiau yn y Brifysgol i gyn-filwyr/Bersonél y Lluoedd Arfog.

Dinas a Sir Abertawe

Rhoddodd Spencer Martin fwy o wybodaeth am y wobr arian a enillwyd gan yr awdurdod yn y seremoni Cyfamod diweddar yng Nghaerdydd, a dywedodd y byddai'r awdurdod yn parhau i anelu at gyflawni'r wobr aur. Cyfeiriodd at gronfa'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar gyfer cryfhau perthnasoedd mewn awdurdodau iechyd y mae Cyngor CNPT yn cydlynu cais ariannu ar ei chyfer. Os bydd y cais yn llwyddiannus, byddai'n arwain at benodi swyddog amser llawn yn yr ardal awdurdod iechyd PABM leol i gasglu data perthnasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Chris Evans am fynd i'r digwyddiad yn Wrecsam ar ei ran, gan ddweud ei bod yn parhau i ymwneud ag achosion tai unigol lle gall gynorthwyo sefydliadau ac unigolion. Dywedodd fod Cyngor Abertawe wedi cyflwyno pwyntiau ychwanegol ar gyfer personél y lluoedd arfog/cyn-filwyr sy'n llwyddiannus. Soniodd am y posibilrwydd o gynnal digwyddiadau'r flwyddyn nesaf i goffáu 100 mlynedd o'r Awyrlu Brenhinol, ac y byddai mwy o fanylion yn dilyn maes o law. Dywedodd hefyd y byddai Catrawd Frenhinol Cymru'n cael eu gwahodd i ddod i gemau'r Elyrch yn Stadiwm Liberty ym mis Chwefror. Amlinellodd yr adborth o Wasanaeth Dydd y Cofio

a gynhaliwyd yn Eglwys y Santes Fair, gan ddweud bod yr Archesgob wedi nodi ei fod yn awyddus i'r eglwys gymryd mwy o ran yn y cyfamod.

**24 Adrian Bailey, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe - Cydgynhyrchu. (Cyflwyniad)**

Rhoddodd Adrian Bailey, un o swyddogion datblygu CGGA gyflwyniad Powerpoint manwl i'r panel a oedd yn ymwneud â mater cyd-gynhyrchu.

Amlinellodd yr hanes, y cyd-destun a'r egwyddorion sylfaenol a oedd wrth wraidd datblygu'r syniad cyd-gynhyrchu, yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran ymgynghori ac opsiynau a phosibiliadau ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd at y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd mewn gwirionedd yn golygu y dylid ymgynghori ag unrhyw un y mae newidiadau'n effeithio arno, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, ac y gallant hwy hefyd ofyn i fod yn rhan o'r broses cyd-gynhyrchu .

Dylai hyn olygu y dylid cyd-gynhyrchu'r holl gynlluniau a mentrau gyda sefydliadau a phobl y mae eu canlyniadau posib yn effeithio arnynt.

Dywedodd fod strategaeth cyd-gynhyrchu newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan Gyngor Abertawe, a bydd ei nodau'n cynnwys ymgysylltu'n well â'r cyhoedd, yn enwedig y bobl hynny ag anableddau a namau y byddai'r newidiadau i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn effeithio arnynt.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.10 pm

**Cadeirydd**